# <u>Cyngor Cymuned Llanycil.</u>
# <u>Cyfarfod Blynyddol.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mai 12fed 2026 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Arwel Davies, Euros Puw, Cyng.Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Jones a Geraint Thomas.

<u>i) Croesawyd y cynghorwyr i'r cyfarfod.</u>

<u>ii) Cynrychiolwyr ar bwyllgorau.</u>
Pwyllgor Un Llais Cymru: Dewis cynrychiolydd pan fydd y Cyngor yn derbyn manylion y cyfarfodydd.

Cwmni Pum Plwy Penllyn: Arwel Davies a cytunwyd i ofyn i Geraint Thomas gynrychioli'r Cyngor hefyd.
Gorff Llywodraethol Ffederasiwn Cysgod y Foel: Rhys Jones.
Fforwm Adfywio Y Bala a Phenllyn – Arwel Davies a Euros Puw
Cyfarfodydd Lleol yr Heddlu – Arwel Davies a Rhys Richards

<u>iii) Adroddiad Blynyddol y Cyngor.</u>
Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol.

<u>iv) Cyfrifon 2025-26.</u>
Cafwyd adroddiad o'r cyfrifon am y flwyddyn 2025-26 gan y clerc, a chafwyd hwy yn gywir.

<u>v) Archwiliad Blynyddol y Cyngor.</u>
Roedd trefniadau mewn lle i anfon y dogfennau perthnasol i'r archwilwyr mewnol ac yn ddiweddarach i Archwilio Cymru.

<u>vi) Cydnabyddiaeth Ariannol i'r Cynghorwyr 2026/27.</u>
Cofnodwyd y llythyrau a dderbyniwyd gan y cynghorwyr yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r cydnabyddiaethau ariannol gorfodol.

<u>vii) Adolygu Asedau.</u>
Adolygwyd y rhestr a chafwyd yn gywir. Cadarnhaodd fod y llochesi bws wedi cael ei archwilio ac nid oedd unrhyw fater i'w drafod.

<u>viii) Adolygu Polisïau a Rheoliadau'r Cyngor.</u>
Adolygwyd y polisiau a rheoliadau gan gynnwys y Rheoliadau Sefydlog, Rheoliadau Mewnol, Rheoliadau Ariannol, Cynllun Hyfforddiant, Polisi Diogelu Data ac Asesiad Risg presennol a chafwyd yn gywir.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad:……………………..